**CYNGOR SIR FYNWY**

**Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**
**Dydd Llun, 21ain Hydref, 2024, 11.00 am**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol: David Jones, Jayne McKenna, John Crook, M. Cross and P. James |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Nikki Wellington | Rheolwr Cyllid |
| Louise Connolly | Accounting Technician Trainee |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Siro Martyn Groucutt, Phil Murphy, Laura Wright, C. Andrews, R. Clark, H. Morgan

1. **Ethol cadeirydd ar gyfer cyfarfod heddiw**

Gan nad oedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gael i fynychu'r cyfarfod, etholwyd y Cynghorydd Sir David Jones yn Gadeirydd ar gyfer cyfarfod heddiw.

2. **Datganiadau o Fuddiant.**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

3. **Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy..**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22ain Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir.

4. **Ystyried pa un ai i eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod pan ystyrir yr eitem ganlynol o fusnes yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail**

Gwnaethom wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes a ganlyn yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. **Ystyried adroddiad y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc yng nghyswllt ceisiadau a gafwyd ar gyfer Cronfa'r Ymddiriedolaeth am Flwyddyn Academaidd 2024/25.**

Gwnaethom ystyried 11 o geisiadau a dderbyniwyd yn erbyn y Gronfa Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd ar ran y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth:

(i) dyfarnu gwobrau i naw o'r ymgeiswyr, yn amodol ar dderbynebau priodol a thystiolaeth o bresenoldeb. Byddai swyddogion yn cysylltu â rhai o'r ymgeiswyr hyn i ofyn am ragor o wybodaeth.

(ii) ni chafodd dau gais eu hariannu yn y cyfarfod heddiw. Byddai swyddogion yn cysylltu â'r ddau ymgeisydd i gael rhagor o wybodaeth. Pan fydd y wybodaeth ychwanegol wedi dod i law, bydd y ceisiadau'n cael eu hailgyflwyno i gyfarfod o'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol i'w hystyried.

(iii) bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth yn amlinellu polisi trafnidiaeth gyhoeddus yr Awdurdod a chyfraddau ceiniog y filltir, gyda golwg ar gynorthwyo myfyrwyr wrth wneud cais am gyllid yn erbyn yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'u costau teithio i'r coleg.

**6. <u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.</u>**

Dydd Llun, 20fed Ionawr, 2025 2.00pm.